Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 16 Mai 2017 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 16 May 2017 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/*Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair***/in the chair),* John Adams-Lewis, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones, Richard Jones, Sian Maehrlein, Catrin Miles, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams

1. **Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**
   The Chair's Welcome and Personal Matters.
   Yn absenoldeb anorfod y Maer, y Cyng. Clive Davies, am resymau teuluol o ddechrau'r cyfarfod, agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. Richard Jones. Croesawodd bawb i'r cyfarfod yn cynnwys y cynghorwyr oedd newydd eu hethol. Ymunodd y Maer â'r trafodion am 6.10yh.
   In the unavoidable absence of the Mayor, Cllr Clive Davies, due to family commitments, the meeting was opened by the Deputy Mayor, Cllr Richard Jones. Cllr Jones welcomed all to the meeting especially the newly-elected members. The Mayor joined proceedings at 6.10pm.

2. **Ymddiheuriadau /** Apologies. **Roedd pawb yn bresennol.** All members were present.

3. **Datganiad Derbyn Swydd / Ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd.**
   (Ni all cynghorwyr weithredu hyd nes y byddant wedi arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd ac wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad. Mae'r Datganiad hwn yn ymgorffori'r ymrwymiad i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad ac mae'n rhaid i gynghorwyr wneud hyn o dan Ddeddf 2000.)

   Declaration of Acceptance of Office / Undertaking to comply with the Code.
   (Councillors may not act until they have signed a Declaration of Acceptance of Office and given an undertaking to comply with the Code of Conduct. This Declaration incorporates the undertaking to comply with the Code of Conduct which councillors are required to give under the 2000 Act.)

   Estynnodd y clerc ei groeso i'r holl aelodau a llongyfarchwyd hwy ar eu llwyddiant yn yr etholiadau. Eglurodd iddynt y canllawiau ynglŷn â'r ffurflen sydd i'w llanw pan fyddant yn datgan diddordeb personol neu ragfarnol mewn cyfarfodydd o'r cyngor. Aethpwyd ati wedyn i'w gwahodd i ddarllen ac arwyddo'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" a'u hymrwymiad i barchu'r côd ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth aelodau Cyngor Tref Aberteifi. Cyflwynwyd i'r aelodau newydd lyfryn "Rheolau Sefydlog Cyngor Tref Aberteifi" a'r llyfryn "Ombwdsmon (Eisiau cwyno am gorff cyhoeddus? – Chi a'r Ombwdsmon". Roedd y ddogfen "Cynllun yr Iaith Gymraeg" a'r ddogfen "Côd Ymddygiad i Aelodau Cyngor Tref Aberteifi" wedi eu hanfon at bawb drwy e-bost.
   Gwyntyllodd y clerc gyfrifoldeb y cynghorwyr fel aelodau o Gyngor Tref Aberteifi sydd yn ymddiriedolwr o elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.

   The clerk extended his welcome to the members and congratulated them on their success in the elections. He offered directives regarding the forms available when declaration of personal and prejudicial interest of councillors was required. The clerk then invited all members to read and sign the "Declaration of Acceptance of Office" and their commitment to observe the code of conduct which is expected of members of Cardigan Town Council. New members were presented with the "Cardigan Town Council Standing Orders" booklet and the "Ombudsman" booklet ("Want to complain about a public body? – You and the

Ombudsman". The "Welsh Language Scheme" document and "Code of Conduct for Members of Cardigan Town Council" document were forwarded to all members by e-mail. The clerk informed councillors of their responsibility as members of Cardigan Town Council serving as trustee of King George 5th Playing Field.

4. Mabwysiadu'r ddogfen "Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol".

Adoption of the "Social Media Policy" document.

Derbyniwyd y dogfenni canlynol oddi wrth Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau Cyngor Sir Ceredigion:

- **Cymdeithas Llywodaeth Leol Cymru: Cyfryngau cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr.**
- **Templed o Bolisi Cyfryngau Cymdeithas o Un Llais Cymru (Pwrpas y polisi hwn yw helpu gweithwyr ac aelodau etholedig i wneud penderfyniadau priodol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, fforymau, byrddau negeseuon, blogiau neu sylwadau ar we-erthyglau, megis Twitter, Facebook a LinkedIn).**

The following documents have been received from the Ceredigion County Council Democratic Services and Standards Officer:

- Welsh Local Government Association – Social Media: A Guide for Councillors.
- Template for a Social Media Policy from One Voice Wales (This policy is intended to help employees and elected members make appropriate decisions about the use of social media such as social networking websites, forums, message boards, blogs or comments on web-articles, such as Twitter, Facebook and LinkedIn).

Dosbarthwyd y ddogfen i'r aelodau yn ystod y cyfarfod. Cytunwyd gosod yr eitem am drafodaeth ar agenda mis Mehefin.

The document was distributed to all members at the meeting. It was agreed to place the item for discussion at the June meeting agenda.

5. Cyflwyniad o "Datganiadau cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi" a "Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a 2)" o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o Gyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn 31 Mawrth 2017 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2016-17.

Presentation of "Accounting statements 2016-17 for Cardigan Town Council" and "Annual Governance Statements (Parts 1 & 2)" of the Smaller local government bodies in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2017 and the Draft of the Internal Audit Report 2016-17.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cyngor yn cadarnhau adroddiad yr Achwilydd Mewnol a'r Datganiadau cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi ac wedi ateb Rhan 1 a Rhan 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd pawb yn gytûn.

Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer, y Cyng. J. Clive Davies, a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mr L. Wynford Jones, ym mhresenoldeb y cyngor ar 16 Mai 2017.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Graham Evans that the council confirms the acceptance of the Internal Auditor's report and the Accounting statements 2016-17 for Cardigan Town Council and have answered the questions in Part 1 and Part 2 of the Annual Governance Statement. All members were in agreement and approved the Report.

The Annual Return was signed by the Chairperson, Cllr J. Clive Davies, and the Responsible Financial Officer, Mr L. Wynford Jones, in the presence of the council, 16 May 2017.

6. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) Gohebiaeth oddi wrth Mr Steffan Morgan (Ysgrifennydd Pwyllgor Carnifal Aberteifi). Dywedodd y Cyng. Richard Jones bod cyfarfod anffurfiol wedi ei gynnal i wyntyllu'r posibilrwydd o sefydlu Carnifal yn y dref yn ystod misoedd yr haf, ac awgrymwyd ei gynnal ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed ar 2 Awst. Cytunwyd bod y clerc yn anfon

llythyr at y Pwyllgor Ymgynghorol yn gofyn am ganiatâd. Bydd y Cyng. Jones yn cysylltu â'r Clwb Pêl-droed a'r Clwb Rygbi yn gofyn am eu sêl bendith.

(b) Gwyntyllodd y Cyng. Clive Davies app y dre sydd yn cael ei ddatblygu i hybu busnesau'r ardal; mae oddeutu 60 o siopau'r dref wedi eu cynnwys ar hyn o bryd.

(c) Dosbarthwyd taflenni o "Teithiau Iach yn Ysgol Gynradd Aberteifi" gan gadeirydd y llywodraethwyr, y Cyng. John Adams-Lewis.

(a) Correspondence received from Mr Steffan Morgan (Secretary) on behalf of the Cardigan Carnival Committee. Cllr Richard Jones stated that an informal meeting had been held to organise a Carnival during the summer months. It was agreed at that meeting that it be held on King George 5th Playing Field on 2 August. It was agreed at the council meeting that permission be sought from the Advisory Committee of the field before proceeding with arrangements. Cllr Jones agreed to request the Football Club and the Rugby Club for their co-operation.

(b) Cllr Clive Davies highlighted the town app which is being developed and confirmed that approximately 60 shops had already agreed to be included.

(c) Cllr John Adams-Lewis, chair of Ysgol Gynradd Aberteifi governing body, distributed the leaflet "Active Journeys at Ysgol Gynradd Aberteifi".

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 6.30yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 6.30pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....